## Dioddefaint a Chroes Crist

**Galwad i Addoli:**

Sanctaidd Dduw,
sanctaidd a thrugarog,
sanctaidd a thragwyddol,
trugarha wrthym.

**Darllen Mathew 26:1–5,14–16,47–50**

**Darllen Marc 14:22–26**

**Gweddi:**

Y Groes – fe'i cymerwn.
Haws dweud na gwneud, Arglwydd. Mae'r pren yn arw, heb ei drin.
Hyd yn oed wrth gymryd gofal mae'n gadael ei ôl ar fy nwylo. Edrych ar y gwaed! A phan fydd y gwaed wedi peidio â llifo, fe fydd yna graith.
Y Bara – fe'i torrwn.
Wrth Fwrdd y Cymun mae'r bara wedi'i dorri'n barod. Dyna arwydd, Arglwydd. Dim ond estyn fy llaw a derbyn – derbyn a bwyta – a chofio hefyd sut y torrwyd Y Bara.
Y Boen – fe'i dioddefwn.
Ond pa boen yw hon, Arglwydd? Fy mhoen i? Poen y byd? Poen y Cariad sy'n cael ei wrthod ar y Groes? Dy boen di?
Y Llawenydd – fe'i rhannwn.
Y llawenydd a ddaw wedi'r dagrau yw hwn, Arglwydd, y llawenydd na all neb ei ddwyn oddi arnaf. Diolch am gael ei brofi. Gwared fi rhag ei gadw i mi fy hun.
Yr Efengyl – ei byw a wnawn.
Pa werth y Newyddion Da, Arglwydd, os nad wyf yn eu byw? Fy ngeiriau a'm gweithredoedd yn un. Y dweud a'r gwneud yn ddiwahân.
Y Cariad – fe'i rhoddwn.
A'i roi os gallaf, Arglwydd, fel y gwnaeth Iesu, heb ddal dim yn ôl a heb gyfrif y gost.
Y Goleuni – fe'i hanwylwn.
Cynorthwya fi, Arglwydd, i garu'r goleuni yn fwy na'r tywyllwch ac i fod yn oleuni i eraill.
Y Tywyllwch – Duw a'i dinistria.
Arglwydd, dinistria'r tywyllwch sydd ynof fi ac yn ein byd rhanedig. Amen.

**Neges:**

Roeddwn yn synhwyro o'r foment yr agorais fy llygaid y bore hwnnw y byddai'n un o'r dyddiau yna! Codi, gwisgo, cael brecwast – y patrwm dyddiol arferol. Ac yna allan o'r tŷ'r un amser ag arfer er mwyn agor y stondin yn brydlon. Mae'r stondin wedi bod yn y teulu ers cenedlaethau. Busnes bach da yw'r busnes gwerthu colomennod yn y Deml yn Jerwsalem! Does dim prinder cwsmeriaid, a does dim byd gwell i ddyn busnes na chael monopoli. Os yw'r cwsmeriaid am brynu colomennod, wel, mae'n rhaid iddyn nhw wneud hynny ar fy nhelerau i, ac mae awdurdodau'r Deml yn gosod telerau ariannol ffafriol iawn. Ond roedd gen i deimlad annifyr y diwrnod hwnnw. Digon tawel oedd hi peth cynta', yna prysuro tua chanol y bore. Ond wedyn, daeth rhyw ddyn fel corwynt i ganol y stondinau. Gweiddi i ddechrau – rhywbeth am dŷ gweddi ac ogof lladron. Ac wedyn yn troi'r byrddau, a'r adar

a'r anifeiliaid a'r arian yn mynd ar chwâl i bobman. Cyrhaeddodd fy stondin i, ac fe oedodd am eiliad ac edrych arnaf – edrych i fyw fy llygaid, a minnau hefyd yn cael fy ngorfodi i edrych arno ef. Roeddwn i'n teimlo mod i'n edrych i mewn i'w enaid. Gwelais y fath dristwch a phoen. A theimlais gywilydd, oherwydd sylweddolais mai fi a'm tebyg oedd yn gyfrifol.

**Gweddi:**
'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt ti wedi fy ngadael?'
Daw dyddiau, Arglwydd, pan fydd geiriau Iesu ar y Groes yn fwy na geiriau.
Gweddïwn dros y rhai sy'n teimlo nad wyt ti'n rhan o'r hyn sy'n digwydd iddynt:
y rhai sydd mewn anobaith;
y rhai sydd mewn argyfwng;
y rhai sydd mewn dryswch.
Gweddïwn dros y rhai sy'n teimlo dy fod ti wedi cefnu arnynt:
y rhai sydd wedi gofyn, ac sy'n credu nad oes dim wedi'i roddi;
y rhai sydd wedi chwilio, ac sy'n credu nad oes dim wedi'i gael;
y rhai sydd wedi curo, ac sy'n credu nad oes yr un drws wedi'i agor.
Gweddïwn dros y rhai sy'n teimlo dy fod ti wedi eu gadael:
y rhai sydd yn cael eu trin yn anghyfiawn oherwydd lliw eu croen, eu hil, eu cred.
Arglwydd, pan 'ddaw'r niwl i guddio'r wybren las' yn ein hanes ni fel yn hanes Iesu, paid â gadael i'n hofnau ein gwneud yn ddall i'th bresenoldeb. Amen.

**Neges:**
**Gair o'r Groes**
Cawn ein hunain yn troedio tir cysegredig heddiw. Mae'n anodd meddwl am domen sbwriel fel tir cysegredig, eto dyna oedd Golgotha, Lle'r Benglog. Pwy fasai'n meddwl y byddai gan Dduw le i domen sbwriel yn ei gynlluniau? Ond dyna ni, Duw'r annisgwyl fu ef erioed, ac i'r rhai sy'n effro i'r pethau hyn, mae'n medru'n synnu ni o hyd.

Dioddefaint yw un o allweddeiriau heddiw, a dyw'r hyn y mae'r gair yn ei gyfleu ddim yn ddieithr i neb ohonom. Dyma un o'r profiadau sy'n gyffredin i'r teulu dynol ym mhob man. Go brin fod neb yn ei chwennych. Mae'n dod i ran y diniwed. Gall ddod i ran y rhai sy'n digwydd bod yn y lle anghywir ar yr adeg anghywir.

Weithiau ni fydd achos dioddefaint eraill, yn fwriadol ac yn anfwriadol. Ac mewn byd nad yw eto wedi ymwrthod â chasineb, trais a rhyfel, bydd llawer yn profi chwerwedd ei flas. Ond i'w gosod ochr yn ochr â'r gair 'dioddefaint' mae yna allweddeiriau eraill, yn codi o'r un domen sbwriel, ac maen nhw'n eiriau i ni i gyd: 'O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud.'

**Y Fendith:**
Bydded i Dduw eich cadw rhag pob drwg;
bydded i'r Arglwydd Iesu eich cynnal beth bynnag ddaw;
bydded i'r Ysbryd Glân eich calonogi bob cam o'r daith.
Amen.

***Oedfaon Ffydd, gol. Aled Davies***